



Delfryn
Llwynpïod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS LUN/MONDAY 16.12.2019
@ 7.30 yh/pm YN Y NEUADD GOFFA/IN THE MEMORIAL HALL

COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2019
MINUTES OF DECEMBER 2019 MEETING

1. **ADRODDIAD YR HEDDLU / REPORT FROM THE POLICE**

Yn absenoldeb yr heddlu, ni dderbyniwyd adroddiad.
In the absence of the police, no report was received.

2. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol.
The Chairman welcomed all to the monthly meeting.

PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Evan Jones, Rhian Jones, Alun Owen. June Owens & Cyng/Cllr Rhydian Wilson.

3. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Neb / No-one

4. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

5. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to declare.*

6. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 18.11.2019**

Cynnig / *Proposer:* Cyng/Cllr Rhydian Wilson
Eilio / *Seconded:* Cyng/Cllr June Owens

7. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

7.1 Diolchwyd i Cyng Evan Jones am gludo'r meinciau concrit o'r parc.
Diolchwyd i Cyng June Owens a Cyng Rhian Jones am ymgymryd â'r arolwg gwledol am y mis a chynigwyd ganddynt i wneud y mis i ddod hefyd.
Yn dilyn yr arolwg soniwyd am y baw cŵn oedd yn bresennol yn y parc a gofynnir i'r clerc brynu arwyddion perthnasol ar frys i'w doddi yn y parc.
Soniwyd bod rownd nesaf i geisio am grantiau wedi agor a thrafodwyd y posibilrwydd o geisio am y grant i adnewyddi'r seddu a'r cadwyni ar y swings, rhan o'r twnnel a'r mating oddi amgylch eitem yn y parc.
Cllr Evan Jones was thanked for transporting the old concrete swings from the park area.
Cllr June Owens & Cllr Rhian Jones were both thanked for carrying out the visual inspections and they offered to carry out the next month's inspection as well.
Following their visual inspection dog fowl was a major problem in the park and the clerk was asked to purchase appropriate signage as soon as possible.
Following an e-mail received and circulated, the next round of the children's play area grant had re-opened and it was discussed and agreed upon to apply for replacing the chains and seats to the swings, part of the tunnel and rubber matting around items in the park.

- 7.2 Gohiriwyd cyfarfod ar 5ed o Ragfyr 2019 am 5.00yh efo Steffan Griffiths/Simone Eade oherwydd salwch ac ail-drefnwyd ar 8fed o Ionawr 2020 am 5yh, gofynnir i'r cynghorwyr i fynychu os medrant.
Due to illness the original meeting between Mr Steffan Griffiths/Simone Eade and the councillors had to be postponed and re-arranged for 8th January 2020 at 5pm, Councillors were reminded to attend if available.
- 7.3 Soniwyd bod y Cyngor Sir wedi gofyn am amcanbris oddi wrth gwmni TTS am atgyweirio'r tarmac oddi amgylch CCF am y Ganolfan Hamdden.
County Council had made inquiries with TTS for an estimate for repair works on the road around the CCF towards the Leisure Centre.
- 7.4 Trafodaethau yn parhau rhwng Cyng Catherine Hughes a Mr Dorian Pugh ynglŷn â Pharêd Gŵyl Ddewi yn Nhregaron.
Discussions are continuing between Cllr Catherine Hughes and Mr Dorian Pugh regarding the St David's day Parade in Tregaron.
- 7.5 Clerc i ddrafftio copi o Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol a'i chylchredeg i'r Cynghorwyr i'w drafod ac i'w mabwysiadau yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
Clerk to draft a copy of the Standing Orders and Financial Regulations and circulate to all councillors for approval and place on the agenda for the Annual General Meeting.
- 7.6 Clerc i ddilyn lan am ymateb Kieran Elliott, Elliott Conservation yn cadarnhau pryd fydd o'n gallu cario allan y gwaith sydd angen ar Henry Richard.
Clerk to follow up on Kieran Elliott, Elliott Conservation's confirmation on his start date on necessary work to be completed on Henry Richard.
- 7.7 Diolchwyd i Cyng Gwilym Jenkins am drefnu'r coed Nadolig oddi amgylch y dre.
A vote of thanks was extended to Cllr Gwilym Jenkins for arranging the delivery of the Christmas trees in the town.
- 7.8 Soniwyd bod y biniau grit/halen yn llawn oddi amgylch y dre.
It was noted that the majority of the grit/salt bins were full around the town.
- 7.9 Llythyron wedi rhoi i berchnogion Rose Terrace, Courier Street ond soniwyd nad oedd y berth wedi'u thorri nôl eto.
Letters had been distributed to the owners of Rose Terrace, Courier Street but the hedge had not been trimmed to date.
- 7.10 Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir i ddychwelyd y bollards ar y palmant gollwng oddi amgylch Henry Richard.
Clerk had requested that the County Council re-place the missing bollards around the dropped curb around Henry Richard.

8. CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS

- 8.1 Gweithiwr Strydlun/*Street Scene Worker* £210.12
- 8.2 Clerc/*Clerk* £265.80
- 8.3 HMRC NIC/TAX Mis/*Month* 8 £59.60
- 8.4 Cyngor Sir Ceredigion (golau stryd) £560.82
- 8.5 Balans y banc/*Bank Balance* £40,951.34
- 8.6 Ad-daliad o SSE Trydan wedi'u fancio £22.46
- 8.7 Soniwyd bydd y praesept yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Cynnig / *Proposer*: Cyng Gwilym Jenkins

Eilio / *Seconded*: Cyng June Owens

CADEIRYDD / **CHAIRPERSON**

9. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**
Angen i'r gweithiwr strydlun glanhau'r llwybr o gefn yr Eglwys lawr am Doldre & palmant gyferbyn a'r hen bopty bara, Pentre.
Awgrymwyd ein bod yn siarad â'r gweithiwr strydlun cyn bob cyfarfod i gael diweddariad o'r gwaith a wnaed yn ystod y mis.
Street Scene Worker to clean from behind the Church down towards Doldre and the pavement opposite the old bakery, Pentre.
It was suggested that we receive a verbal report from the street scene worker before each monthly meeting for an update.
10. **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*
11. **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED**
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*
12. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*
13. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*
14. **CYNLLUNIAU LLE / PLACE PLANS**
Cylchredwyd copi drafft o'r adroddiad i'r cynghorwyr a gofynnwyd iddynt ddarllen yr adroddiad a dychwelyd i gyfarfod mis Ionawr efo newidiadau/syniadau hoffent ymgorffori yn y ddogfen.
Awgrymwyd cynnwys gwaith y grŵp 'Tregardd' yn y ddogfen drafft.
Diolchwyd i Cyng Arwel Jones i ymgymryd â'r holl waith o ddrafftio'r ddogfen a'i pharatoi ar gyfer ei hanfon i'r Cyngor Sir.
A draft copy of the report had been circulated prior to this evening's meeting and the councillors were asked to read/change/forward any suggestions to be incorporated into the document by the next meeting in January.
It was suggested to incorporate the work of the group 'Tregardd' in the draft copy.
Cllr Arwel Jones was thanked for all his work in drafting and collating all the information in preparation of this document which has been forwarded to the County Council for further discussion.
15. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**
Cyfarfod rhan ddeiliaid wedi'u gynnal cyn y cyfarfod Cyngor Tref ac mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen yn addawol iawn.
Cadarnhad wedi'u dderbyn ni fydd Ysbyty Tregaron yn cau nes bod prosiect Cylch Caron wedi agor yn swyddogol.
Stakeholders meeting had been held prior to the Town Council meeting and the plans and arrangements were moving forward very promising.
Reassurance was given that the Tregaron Hospital would not close before the Cylch Caron project had been officially opened.
16. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2020**
16.1 Soniwyd bod angen edrych mewn i'r contract rhwng y Cyngor Tref a D A G Jones a'i fab i drafod gwneud bach o waith cynnal a chadw ar y toiledau ar safle'r mart.
Cyng Rhyddian Wilson wedi cael sgwrs fer iawn efo perchennog Gardd Gelli Gron am y safle.
Soniwyd bod arwyddion newydd mewn i Geredigion wedi'u harddangos eisoes.
Trafodwyd y posibilrwydd o symud arwyddion Croeso i Dregaron i fod mwy nôl i groesawu pobl i'r Eisteddfod gan nifer o'r ceir/carafanau ddim yn dod mewn i Dregaron i'w gweld.

Ysgol Henry Richard yn meddwl am wneud arwyddion croeso newydd ar gyfer yr Eisteddfod.

Angen awgrymiadau am y nifer o ddau wag sydd yn y dref i wneud iddynt edrych mwy deniadol.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael potiau blodau o dan arwyddion croeso i Dregaron. Soniwyd bod Cyngor Sir Ceredigion yng ngofal y bins a'r meinciau oddi amgylch y dre.

Soniwyd am gyflwr gwael y fainc tu allan i siop Rhiannon.

Cyng Catherine Hughes i ymchwilio mewn i'r posibilrwydd o gael arwydd mawr ar fynyddoedd Tregaron, angen trafod efo Alice Briggs am hawl cynllunio ac yn y blaen.

Bydd angen glanhau'r afon cyn cyfnod yr Eisteddfod, Cyng Rhydian Wilson a'i fois yn gwirfoddoli'r gwaith yma.

Trafodwyd a chytunwyd bod Cyng Catherine Hughes a Cyng Ann Jones yn trafod ymhellach efo aelodau Merched y Wawr a'r W.I. o'r posibilrwydd iddynt gynorthwyo a chreu bynting adeg yr Eisteddfod gan ddefnyddio lliwiau penodol yr Eisteddfod. Cytunwyd mewn egwyddor bod y Cyngor Tref yn fodlon talu am y bynting sydd ei hangen ar Merched y Wawr a'r W.I. i wneud y gwaith.

Angen golau ar hyd y ffordd i fyny at fynedfa'r Eisteddfod.

Awgrymwyd cau'r sgwâr fawr adeg yr Eisteddfod gan ddodi popups tu allan i'r Talbot a chynnig lle i'r busnesau ddod a'i chynnyrch yno. Cyng Catherine Hughes i edrych mewn i'r hawliau trwyddedu ac yn y blaen.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth aelodau 'Tregardd' tîm o wirfoddolwyr a oedd yn bwriadu sefydlu pwyllgor i harddu'r dre trwy blannu planhigion, coed ac yn y blaen oddi amgylch y dref. Cytunwyd i'r syniad a gofynnir i'r Cynghorwyr annog gwirfoddolwyr i ymuno â'r prosiect.

It was mentioned that the contract between the Town Council and D A G Jones & Son was to be reviewed as general maintenance work was required on the mart premises toilets.

Cllr Rhydian Wilson had a brief discussion with the owner of the Gelli Gron Gardens about the site.

New Welcome to Ceredigion signs had already been erected into Ceredigion.

Discussions took place as to the possibility of moving the welcome to Tregaron signs back before the entrances to Tregaron as many of cars/caravans would not be passing these signs.

Ysgol Henry Richard were considering making new welcome signs into Tregaron over the Eisteddfod time.

Suggestions were needed for improving the looks of the empty properties in Tregaron.

Pot plants to decorate under the welcome signs to Tregaron.

Ceredigion County Council were in charge of additional bins and benches around the town.

It was mentioned that the bench outside Rhiannon's was in a poor state.

Cllr Catherine Hughes to make further inquiries regarding the licensing etc with Alice Briggs to the possibility of placing a large Tregaron sign on the mountains.

River would need cleaning from litter before the Eisteddfod, Cllr Rhydian Wilson and his staff were available to assist with this work.

Cllr Catherine Hughes and Cllr Ann Jones to communicate with members of the Merched y Wawr and W.I. about the possibility of them assisting with the making of the bunting that would be placed around the town. The Councillors were in agreement that the Town council should purchase the material if the MyW and WI would design and construct the bunting.

Lights would be required on the paths leading to the entrances.

It was suggested that the main square could be closed off from the vehicles during the Eisteddfod week and possibly erect pop-up marquees around the Talbot frontage and Henry Richard and offer the spaces to local businesses. Cllr Catherine Hughes to make further inquiries regarding the licences required for such procedure.

E-mail received from 'Tregardd' a group of volunteers intending to form a group to plant flowers, bulbs, trees etc, using organic methods around the town. Councillors were encouraged to spread the word to anyone wishing to join the group.

17. **PROSIECT PWLL NOFIO (TRIP) SWIMMING POOL PROJECT**

Gan fod y Cyngor Sir wedi bod ynghlwm â'r Etholiad diweddara, nid oes llawer wedi digwydd ynglŷn â'r prosiect. Cefnogwyd yr is-bwyllgor i ail gyflwyno'r cais gwreiddiol ac annog y pwyllgor i ymweld â'r safle.

As the County Council had been so involved in the recent election, not as much progress had been made. Town Council were in full agreement to re-submit the original application and encourage the committee to visit the proposed site.

18. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**

Derbyniwyd cerdyn Nadolig oddi wrth staff Pentir Pumlumon.

Christmas card from the staff at pentir Pumlumon were received.

19. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

19.1 Soniwyd am yr annibendod oedd wedi cronni rhwng y Clwb Bowlio a'r Ganolfan Hamdden, gofynnir i Cyng Rhydian Wilson astudio'r les i gadarnhau cyfrifoldeb pwy oedd i'w glanhau a gofynnir i'r Clwb Bowlio a'r Ganolfan Hamdden weithio efo'i gilydd i dacluso'r ardal.

It was mentioned that there was a lot of rubbish/untidiness between the Bowling Club and the Leisure Centre, Cllr Rhydian Wilson was asked to study the original lease to confirm who was actually responsible for maintaining the area and it was asked whether the Bowling Club and the Leisure Centre could work together to maintain the area in question.

19.2 Soniwyd am y nifer o geir a'r annibendod oedd efo D J Tyres oddi amgylch ei safle, gan gyfeirio'n arbennig at y bocs lori oedd wedi'u barcio wrth ymyl yr adeilad. O ran Iechyd a Diogelwch soniwyd nad oedd y bocs lori yn edrych yn saff iawn a gofynnir i Cyng Catherine Hughes drafod y sefyllfa yn bersonol efo staff D J Tyres.

The number of disused cars and general waste around D J Tyres was discussed along with the dangerous looking box container lorry parked alongside the building. For Health & Safety purposes, Cllr Catherine Hughes was asked to visit the staff personally and discuss the above.

19.3 Yn dilyn y gwaith diweddara o darnacio'r ffordd ar hyd Brynheulog soniwyd nad oedd y gwaith wedi'u gwplu yn foddhaol. Cyngor Sir i fynd allan i ymweld â'r sefyllfa.

Following the recent unsatisfactory tarmacking work carried out along Brynheulog Ceredigion County Council were asked to re-inspect the works.

19.4 Golau rhif SL10 2233 Stryd yr Orsaf dal ddim yn gweithio.

Street Lamp SL10 2233 still not working.

19.5 Eglurwyd mae Cyng Arwel Jones sy'n siecio'r peiriant diffib ar safle'r mart.

It was confirmed that Cllr Arwel Jones regularly checks the diffib machine on the mart premises.

19.6 Golau stryd tu allan i rhif 1 Brynheulog ddim yn gweithio, angen hysbysu'r Cyngor Sir.

Street Lamp outside number 1 Brynheulog not working, need to report to the County Council.

19.7 Golau stryd ar y sgwar fawr ddim yn gweithio, angen hysbysu'r Cyngor Sir.

Street Lamp on the main square not working, need to report to the County Council.

19.8 Cyng Catherine Hughes i edrych mewn i'r posibilrwydd o gael arosfan bws ar y sgwar fawr.

Cllr Catherine Hughes to make further inquiries regarding a bus shelter on the main square.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED

CADEIRYDD / CHAIRPERSON